| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Ebrill 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai. Gary Williams, Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr** |
| **Teitl:** | **Cynllun Dirprwyo Swyddogion** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I ddiweddaru Cabinet gyda'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion diweddaraf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I sicrhau bod pwerau gweithredol Swyddogion yn cael eu dirprwyo iddynt yn briodol er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor yn gyfreithlon neu unrhyw bwerau disgresiwn neu achlysurol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau gweithredol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn yr aelodau ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion. Mae'r cynllun arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau yn neddfwriaeth, strwythur uwch reolwyr y Cyngor a throsglwyddo cyfrifoldebau sydd wedi digwydd o ganlyniad.

4.2 Mae swyddogion yn derbyn y rhan fwyaf o'u pwerau o naill ai'r Cyngor Llawn, Pwyllgorau Statudol neu'r Cabinet. Gellir ymhlygu nifer fach o'u pwerau yn ôl y gyfraith, ond mae'n daclusach i gynnwys yr holl bwerau mewn un cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r swyddogaethau gweithredol yn unig, a bydd y cynllun hefyd yn cael ei gynnwys mewn adroddiad ar y Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol, i gymeradwyo'r swyddogaethau anweithredol.

4.3 Bydd yr Aelodau'n nodi bod y cynllun diwygiedig yn rhoi hyblygrwydd, hyd yn oed os nad yw darn penodol o ddeddfwriaeth wedi ei restru o fewn y cynllun, os yw'r swyddogaeth hynny'n angenrheidiol neu'n atodol i'r Swyddog a'r Gwasanaeth hynny, bydd Cabinet yn eu hawdurdodi yn benodol i weithredu'n unol â hynny.

4.4 Mae rhwymedigaeth benodol, lle y bo'n briodol, i Bennaeth Gwasanaeth i gynnal 'cynllun dirprwyedig adrannol' fel bod swyddogion yn gweithredu ar eu rhan gan wneud hynny gydag awdurdod hefyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd Cynllun Dirprwyo sy'n addas at ei bwrpas yn cyfrannu at y flaenoriaeth i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda gan ddarparu sicrwydd ar faterion llywodraethu a gwneud penderfyniadau, gan ganiatáu i'r cyhoedd weld pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar faterion sy'n effeithio arnynt.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Hyd yma dim ond Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd wedi bod yn rhan o'r ddadl ar y cynigion allweddol yn y cyfansoddiad newydd a'r cynllun dirprwyo ar gyfer swyddogion ac aelodau. Mae model o'r cyfansoddiad newydd yn ei gyfanrwydd bron wedi'i gwblhau, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ehangach ym mis Ionawr ar ffurf gweithdy, cyn i'r ddogfen gael ei ystyried i gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2016.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Mae cynllun dirprwyo wedi'i ddiffinio'n glir yn egluro atebolrwydd ac yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae perygl y bydd Cyfansoddiad (a Chynllun Dirprwyo oddi fewn iddo) sydd heb ei ddiwygio i fod yn gyfredol â newidiadau corfforaethol a deddfwriaethol yn methu â bod yn addas at y diben.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gael cyfansoddiad ac mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod cael cynllun dirprwyo yn ofynnol.